Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: OAQ(4)1831(FM)

Bethan Jenkins AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bethan.Jenkins@wales.gov.uk

30ain Medi 2014

Annwyl Bethan,

Yn dilyn eich cwestiwn yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Medi, dyma ysgrifennu atoch i amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru ar werthu meysydd chwarae ysgolion.

Mae'r defnydd a wneir o feysydd chwarae ysgolion yn fater i awdurdodau lleol. Er hynny, rhaid iddynt roi ystyriaeth i Reoliadau Mangreoedd Ysgol 1999, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion sydd â disgyblion 8 oed ac yn hŷn na hynny ddarparu hyn a hyn o le ar feysydd chwarae ar gyfer gemau tîm.

Mae gofynion yr ardal honno ar gyfer ysgolion unigol yn cael eu cyfrifo drwy fformiwla sy'n gysylltiedig ag oedran a nifer y disgyblion sydd ym mhob ysgol. Nid oes rhaid i gaeau chwarae fod ar safle'r ysgol na nesaf ati, ond rhaid iddynt fod yn ddigon agos i ddisgyblion allu eu cyrraedd yn weddol rwydd. Caiff hyn fod ar droed neu drwy ddefnyddio unrhyw drafnidiaeth resymol sydd ar gael iddynt. Nid oes modd addasu'r gofynion hyn.

O ran y newid defnydd a wneir ar dir sydd o dan eu hawdurdodaeth, neu wneud gwaith arno, mae awdurdodau lleol yn gweithredu o fewn yr holl brosesau arferol. Rhaid cael pob caniatâd angenrheidiol, a phan fo cwynion yn cael eu gwneud, caiff y Cynulliad Cenedlaethol benderfynu ar gais os yw'n dymuno. Hefyd, mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisïau Llywodraeth Cymru o ran cynllunio a defnydd tir yn dweud: " Dylid diogelu pob maes chwarae rhag cael ei ddatblygu, boed yn eiddo i gorff cyhoeddus, preifat neu wirfoddol ac eithrio: lle y gellir cadw a gwella cyfleusterau orau drwy ailddatblygu rhan fach o'r safle; lle y darperir darpariaeth arall o'r un budd i'r gymuned, neu lle y mae gormod o ddarpariaeth o'r fath yn yr ardal".

Felly, nid yw Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar faterion sy'n ymwneud â chael gwared â meysydd chwarae ysgolion. Rhoddwyd pwerau i Loegr o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 oedd yn gofyn am gymeradwyaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer gwerthu unrhyw dir sy'n perthyn i ysgol. Wedi dweud hynny, dywedodd Cyngor Chwaraeon Cymru ar y pryd nad oedd hynny'n berthnasol i Gymru.

Pe bai Cymru am fabwysiadu polisi tebyg i Loegr, byddai gofyn cael deddfwriaeth sylfaenol (i ddirymu adran 77(9) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 er mwyn i adran 77 allu bod yn gymwys i Gymru). Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth ar hyn o bryd i awgrymu bod cael gwared ar feysydd chwarae ysgolion yn digwydd yn rheolaidd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2082 1879
YP.PrifWeinidog@cymru.gsi.gov.uk •
ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol ystyried yr angen am feysydd chwarae a chyfarpar meysydd chwarae wrth ddatblygu rhaglenni buddsoddi cyfalaf. Wedi dweud hyn, mae yna ysgolion lle mae natur y safle'n cyfyngu ar y gallu i ddarparu ardaloedd a meysydd chwarae ar laswellt. Yn yr achosion hyn, nid ydym yn disgwyl i awdurdodau lleol adleoli ysgolion i sicrhau bod darpariaeth o'r fath ar y safle.

Mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Pontarddulais, rwy'n ymwybodol bod posibilrwydd y bydd yr awdurdod lleol yn gwerthu darn mawr o dir er mwyn codi cyfalaf. Rwy'n deall bod Awdurdod Lleol Abertawe wedi ymgynghori â'r ysgol ac wedi cael sylwadau yn ôl gan y corff llywodraethu. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chasglu a'i chyflwyno i Gabinet yr Awdurdod Lleol er mwyn iddynt gael gwneud penderfyniad dros y misoedd nesaf.

Gobeithio fy mod wedi rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch yn y llythyr hwn. Rwyf yn ysgrifennu yn yr un modd at Peter Black AC.

Yn gywir

**CARWYN JONES**